

---

## Hygyrchedd Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig (EPG)

Adroddiad blynyddol ar welliannau ar gyfer pobl sydd â  
nam ar eu golwg

---

**DATGANIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 31 Mai 2019

# Cynnwys

---

## Adran

1. Trosolwg

1

# 1. Trosolwg

Mae pobl sydd â nam ar eu golwg yn gwyllo bron cymaint o deledu â phobl eraill<sup>1</sup> ond maen nhw'n wynebu anawsterau penodol wrth ddefnyddio cyfeiryddion rhaglenni teledu ar y sgrin (a elwir yn gyfeiryddion rhaglenni electronig neu'n EPGs) i gynllunio beth maen nhw eisiau ei wyllo.

O ganlyniad, mae hyn yn cyfyngu'n ddiangen ar yr hyn y gall pobl sydd â nam ar eu golwg ei ddewis, ac fe allant gollir cyfle i wyllo'r rhaglenni y mae'r rhan fwyaf o bobl yn eu cymryd yn ganiataol.

Mae Deddf Cyfathrebiadau (2003)<sup>2</sup> yn gofyn bod cod EPG Ofcom yn gorfodi darparwyr EPG i gynnwys nodweddion o'r fath yn eu EPGs fel sy'n briodol, er mwyn galluogi pobl ag anabledau sy'n effeithio ar eu golwg neu eu clyw, hyd y gellir, i ddefnyddio'r EPGs at yr un dibenion â phobl heb anabledau o'r fath.

Dyma ein hadroddiad blynyddol cyntaf yn dilyn y diwygiadau a wnaed i'r Cod EPG ym mis Mehefin 2018.

## Crynodeb o'r adroddiad

Ar y cyfan, mae ymateb darparwyr i'n datganiad a'r diwygiadau i'r Cod EPG wedi bod yn galonogol.

O gofio ein bod wedi cyhoeddi ein datganiad ar hygyrchedd EPG ar 29 Mehefin 2018, rydyn ni'n cydnabod nad yw hyn yn rhoi llawer o amser i ni baratoi'r adroddiad hwn (5 mis).

Yn ôl pob golwg, mae darparwyr yn ystyried nodweddion hygyrchedd ac anghenion defnyddwyr sydd â nam ar eu golwg yn eu gwaith cynllunio, yn eu trafodaethau â chyflenwyr ac yn eu cylchoedd datblygu cynnyrch ehangach.

Rydyn ni'n poeni bod amserlenni ar gyfer datblygu yn rhy amwys mewn rhai achosion ac nid ydym yn siŵr a fydd rhai darparwyr yn gallu dylanwadu ar wneuthurwyr dyfeisiau i gynnwys y nodweddion mwy costus, fel y swyddogaeth testun-i-lais.

Rydyn ni'n cydnabod y bydd rhai datblygiadau perthnasol yn fasnachol sensitif ond hoffem atgoffa darparwyr y dylai eu hadroddiadau blynyddol, lle bo'n bosibl, gynnwys cynlluniau manwl gan fod yr wybodaeth hon yn werthfawr i ddefnyddwyr.

<sup>1</sup> [Darparu gwasanaethau mynediad: astudiaeth ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer Ofcom, Ofcom, Mawrth 2006.](#)

<sup>2</sup> [Adran 310\(3\) o Ddeddf Cyfathrebiadau \(2003\).](#)